



Pleidleisio drwy ddirprwy

Mae'r adran yma yn esbonio sut i wneud cais i bleidleisio
drwy ddirprwy (rhywun yn pleidleisio ar ran rhywun arall)


Pleidleisio drwy ddirprwy

Mae'r adran yma yn esbonio sut i wneud cais i bleidleisio drwy ddirprwy (rhywun yn pleidleisio ar ran rhywun arall)

Bydd yr adran hon yn esbonio sut i bleidleisio drwy ddirprwy.

Byddwch chi'n cael gwybod am y canlynol:

1. Beth sydd angen i chi ei wneud cyn etholiad
2. Sut i gael pleidlais drwy ddirprwy barhaol
3. Sut i bleidleisio drwy ddirprwy mewn etholiad



Mae pleidleisio drwy ddirprwy yn golygu eich bod chi'n dewis rhywun arall i bleidleisio drosoch chi. Bydd angen i chi lenwi ffurflen newydd i ddewis pwy fydd yn pleidleisio drosoch chi.

Gall y person yma fynd i'ch gorsaf bleidleisio neu wneud cais am bleidlais bost er mwyn pleidleisio ar eich rhan chi. Rhaid iddo bleidleisio dros yr unigolyn neu'r bobl rydych am bleidleisio drosto/ drostynt.



Gwybodaeth gyswllt
e-bost: helpline.wales@mencap.org.uk
ffôn: 0808 8000 300

Pleidleisio drwy ddirprwy

Beth i'w wneud cyn yr etholiad

Dylech ffonio'ch tîm etholiadau lleol i ddweud yr hoffech bleidleisio drwy ddirprwy oherwydd anabledd.

Bydd ffurflen 'Cais i bleidleisio drwy ddirprwy oherwydd anabledd' yn cael ei hanfon atoch chi. Bydd y ffurflen yma yn debyg iawn i'r ffurflen gofrestru i bleidleiswyr.



Y dyddiad cau ar gyfer gwneud cais am bleidlais drwy ddirprwy yw 5pm ddydd Mawrth 26 Ebrill.

Pan fyddwch chi'n llenwi eich ffurflen gais am ddirprwy, bydd angen i chi gwblhau'r canlynol:



- Eich enw
- Y cyfeiriad ble rydych chi wedi cofrestru i bleidleisio
- Manylion y person rydych chi wedi'i ddewis i weithredu fel dirprwy i chi ac a fydd yn pleidleisio ar eich rhan. Rhaid iddo fod wedi cofrestru i bleidleisio ac yn gallu pleidleisio yn yr etholiad hwn
- Am faint hoffech chi gael pleidlais drwy ddirprwy

Gwybodaeth gyswllt
e-bost: helpline.wales@mencap.org.uk
ffôn: 0808 8000 300

Pleidleisio drwy ddirprwy



Gallwch chi ddewis gwneud cais i bleidleisio drwy ddirprwy am gyfnod amhenodol. Mae hyn yn golygu y byddwch chi'n pleidleisio drwy ddirprwy nes eich bod yn dweud nad ydych chi am bleidleisio drwy ddirprwy.

Gallwch chi ddewis gwneud cais i bleidleisio drwy ddirprwy am gyfnod penodol. Er enghraifft, gallech chi ddweud eich bod am bleidleisio drwy ddirprwy rhwng 2022 a 2026 yn unig.



Gallwch chi bleidleisio drwy ddirprwy ar gyfer etholiad penodol. Bydd angen i chi roi dyddiad yr etholiad.

Pleidleisio drwy ddirprwy ar gyfer pob etholiad

Os hoffech chi bleidleisio drwy ddirprwy ar gyfer pob etholiad yn y dyfodol, bydd angen i chi gysylltu â'r tîm etholiadau lleol i ofyn am ffurflen gais i bleidleisio drwy ddirprwy parhaol. Ar y ffurflen, bydd angen i chi nodi pam eich bod chi am bleidleisio drwy ddirprwy.



Gallwch chi bleidleisio drwy ddirprwy am nifer o resymau, gan gynnwys:

- Rydych chi wedi'ch cofrestru'n ddall
- Rydych chi'n cael y gyfradd uwch o elfen symudedd y taliad annibyniaeth personol

Gwybodaeth gyswllt
e-bost: helpline.wales@mencap.org.uk
ffôn: 0808 8000 300

Pleidleisio drwy ddirprwy



- Mae angen i chi weithio oddi cartref.
- Gallwch chi hefyd esbonio pam ddylech chi gael pleidlais drwy ddirprwy, yn eich barn chi.

Efallai y bydd angen i chi gael rhywun i gadarnhau eich esboniad chi hefyd. Gall y bobl ganlynol ategu eich cais:

- meddyg, deintydd, fferyllydd neu nyrs
- gweithiwr cymdeithasol
- rheolwr cartref gofal preswyl.



Bydd mwy o opsiynau ar y ffurflen. Gall eich tîm etholiadau lleol hefyd roi mwy o wybodaeth i chi.

Angen help? Mae rhagor o wybodaeth am bleidleisio ar gael ar wefan Mencap: www.mencap.org.uk/get-involved/campaigning/guides-voting



Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau am yr etholiad, gallwch ffonio llinell gymorth Mencap ar 0808 8000 300.

Gwybodaeth gyswllt
e-bost: helpline.wales@mencap.org.uk
ffôn: 0808 8000 300



Y
Comisiwn
Etholiadol

Gwybodaeth Cyswllt
e-bost: helpline.wales@mencap.org.uk
ffôn: 0808 8000 300